## PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn Conference Room 1b, County Hall, Ruthin, Dydd Mercher, 5 Rhagfyr 2012 am 2.00 pm.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley (Cadeirydd), Meirick Davies, Alice Jones (Is-Gadeirydd), Pat Jones, Margaret McCarroll, Dewi Owens a/ac Merfyn Parry

### HEFYD YN BRESENNOL

Y Cynghorydd David Smith

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid (HW), Rheolwr Prosiect Rhanbarthol (DE), Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (RH)

### 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Joan Butterfield, Ann Davies, Bill Tasker a/ac Huw Williams

### 2 DATGAN BUDDIANNAU

Dim buddiannau i'w datgan

### 3 MATERION BRYS YN ÔL CYTUNDEB Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag a.100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972

### GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *dan a.100A Deddf Llywodraeth Leol 1972 gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu iddyn nhw fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 13, 14 a 15 Rhan 4 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

### 4 STRWYTHURAU GWASANAETH: GWASANAETH PRIFFYRDD A SEILWAITH

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid, adroddiad cyfrinachol, a gynhyrchwyd gan y Rheolwr Prosiect Rhanbarthol ac a gylchredwyd cyn y cyfarfod, a oedd yn mynegi'r opsiynau a oedd ar gael ar gyfer cydweithredu yng nghyflenwad gwasanaethau priffyrdd rhwng Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Yn dilyn penderfyniadau Cabinetau CSDd a ChBSC i beidio â bwrw ymlaen â Gwasanaeth Priffyrdd a Seilwaith cwbl integredig ar draws y ddwy sir, gofynnwyd i'r

Pwyllgor ystyried adroddiad dilynol yn amlinellu'r opsiynau ar gyfer cydweithrediad mewnol ac allanol pellach cyn cyflwyno'r adroddiad i Gabinet y Cyngor ar Ragfyr 18fed.

Yn dilyn craffu manwl ac esboniad manwl ar opsiynau'r strwythur rheolaeth arfaethedig, ac asesiad o'u potensial i leihau costau a gwella gwasanaethau, cytunodd y Pwyllgor ei bod yn briodol cymryd cam yn ôl oddi wrth integreiddiad llawn a chytunodd i gefnogi datblygiad y strwythur rheolaeth a gymeradwywyd ac a fynegwyd dan Opsiwn 2b.

Fe gydnabu'r Pwyllgor nad oedd ymdrechion i integreiddio gwasanaethau Priffyrdd a Seilwaith yn y 3 blynedd ddiwethaf wedi sylweddoli'r manteision a ragwelwyd a bod angen cymryd cam yn ôl o'r lefel yma o gydweithrediad er mwyn uchafu effeithlonrwydd y gwasanaeth, wrth barhau i gynnal cysylltiadau cryf a chyfathrebu agos â ChBSC, heb ddiystyru cydweithrediad agosach yn y dyfodol petai achos busnes cadarn yn cyfiawnhau'r cwrs gweithredu yma.

***PENDERFYNWYD*** *– Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r argymhelliad i'r Cabinet o ddatblygiad y model ar gyfer cydweithredu gyda chyflenwi gwasanaethau Priffyrdd a amlinellir dan Opsiwn 2b.*

Daeth y cyfarfod i ben am 3:40pm.